PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 7 | Chwefror 16, 2023 | 50c.

## Daeargryn difäol

Wrth i'r *Tyst* hwn gael ei baratoi ar gyfer y wasg y mae'r hanes digalon am y daeargryn mawr yn Syria a Thwrci yn datblygu o awr i awr. Mae'r dioddefaint a'r dinistr yno ar raddfa enfawr ac y mae ein calonnau yn torri wrth weld y cyrff yn pentyrru a'r teuluoedd drylliedig mewn galar wedi colli anwyliaid. Nid yn unig hynny ond nid oes ganddynt yr adnoddau sylfaenol i gadw eu hunain yn fyw e.e. bwyd, diod, dillad, cysgod a gwres. Mae'r sefyllfa yn waeth nac echrydus. Eisoes mae apêl gan DEC (Disasters Emergency Committee) wedi ei lansio gyda'r prif elusennau dyngarol yn cydweithio.

Dywed Jennie Weaver, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru, Cymorth Cristnogol fod, 'cartrefi, adeiladau, ffyrdd a hyd yn oed seilwaith ynni wedi cael eu taro gan y dinistr eang. Mae gweithwyr achub yn chwilio'n daer am oroeswyr mewn dinasoedd a threfi ar draws yr ardal.'

Hyd yn oed cyn y daeargryn dinistriol hwn, roedd dros bedair miliwn o bobl eisoes angen cymorth yng ngogledd-orllewin Syria. Mae bron i dair miliwn o bobl wedi eu dadleoli gan y gwrthdaro hir yn Syria, 80% ohonynt yn fenywod a phlant. Nawr mae tywydd gaeafol a chostau cynyddol prisiau bwyd a thanwydd yn gwaethygu'r sefyllfa.

Mae gan Cymorth Cristnogol hanes o weithio gyda phartneriaid lleol yng ngogledd orllewin Syria. Y maent eisoes mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol ar lawr gwlad eisoes yn gweithio er mwyn darparu pecynnau gaeaf i bobl sy'n chwilio am loches. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys gorchuddion plastig, matresi, blancedi, a deunyddiau gwresogi.

Hoffem annog holl ddarllenwyr *Y Tyst* i fod yn hael tuag at yr apêl hon er mwyn lleddfu rhyw gymaint ar y dioddefaint. Hefyd gweddïwch y bydd adnoddau a moddion yn cyrraedd y bobl fwyaf bregus cyn gynted ag y bo modd.



## Y Parchg Blodwen Jones

*Teyrnged gan y Parchg W. Gareth Edwards.*

Wedi dyddiau ysgol yn Nhrefriw a Llanrwst cafodd Blodwen hyfforddiant i fod yn athrawes yng ngholeg Cartrefle, Wrecsam. Bu ei swydd yn gyntaf yn Knutsford ac wedi cyfnod byr yno cafodd swydd yn Nhal-y-bont, Dyffryn Conwy, ac wedi hynny ym Maentwrog. Daeth wedyn yn brifathrawes yn ysgol Bodlondeb, Conwy ac wedi hynny ysgol Cadnant, Conwy.

Cafodd Blodwen yrfa lwyddiannus ym myd addysg gan frwydro i sicrhau addysg ddwyieithog yn ei hysgolion. Bu'n frwydr galed, a llawenydd mawr iddi oedd cael clywed y plant yn siarad Cymraeg ar fuarth yr ysgol.

Bu Blodwen yn weithgar iawn yn ei chymuned. Bu'n gynghorydd sir, yn gadeirydd llywodraethwyr ysgol y Creuddyn, yn gadeirydd Cymdeithas



Gruffydd Ap Cynan ac fe'i hanrhydeddwyd gan fudiad Merched y Wawr drwy iddi gael ei dewis yn llywydd anrhydeddus rhanbarth Aberconwy.

### Newid cyfeiriad

Yn 1992, a hithau yn ei chwedegau cynnar, daeth newid cyfeiriad yn ei bywyd. Wedi cyfnod o baratoad yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, fe'i hordeiniwyd yn weinidog gan eglwys Bresbyteraidd Cymru ac fe'i neilltuwyd gan Henaduriaeth Dyffryn Conwy i weinidogaethu drwy ymweld â chartrefi preswyl yn y cylch gan weinyddu'r cymun ynddynt yn rheoliad bob chwe wythnos. Roedd y gwaith yma wrth fodd ei chalon a bu wrth y gwaith am wyth mlynedd.

### Capel Coffa

Yna, cafodd alwad i fod yn weinidog yn y Capel Coffa, eglwys yr Annibynwyr Cyffordd Llandudno. Cafodd ei sefydlu yno fis Mai 2000. Roedd Blodwen yn gymeradwy iawn gan bawb ac yn uchel iawn ei pharch. Roedd ganddi gryfderau amlwg ar gyfer y gwaith. Gallai gyfathrebu yn rhwydd gyda'r plentyn ieuengaf a'r aelod hynaf hefyd. Roedd ganddi ddawn arbennig i wrando ac i gysuro. Gwerthfawrogid ei bugeilio

*parhad ar dudalen 2*

# Y Parchg Blodwen Jones – parhad

gofalus a'i pharatoi manwl ar gyfer y pulpud. Bu'n weinidogaeth fendithiol iawn hyd ei hymddeoliad yn Rhagfyr 2007.

Drwy wahanol gyfnodau yn ei bywyd fe welwyd cadernid ei chymeriad a hynny'n seiliedig ar gryfder ei ffydd. Pan fu farw ei gŵr cyntaf, Dewi, ag yntau ynghanol prysurdeb ei waith fel gweinidog yn Llan Ffestiniog fe'i gadawyd yn wraig weddw yn ifanc gyda phlentyn chwe blwydd oed i'w fagu. Bu'n rhaid iddi adeiladu bywyd newydd iddi ei hun a chreu cartref a dyfodol diogel iddi hi ac i Ioan.

### Cryfder a chadernid

Ymhen tua hanner canrif yn ddiweddarach, pan fu farw Tom, ei hail ŵr, mor annisgwyl, gwelwyd yr un cryfder a chadernid yn ei chymeriad eto wrth iddi frwydro i ddygymod â'i phrofedigaeth a pharhau gyda'i diddordebau a'i gweithgareddau. Gwerthodd y fferm a symud i fyw i'r Gyffordd. Ond, ymhen ychydig amser, oherwydd cyflwr ei hiechyd, bu rhaid iddi symud i gartref gofal yn Llandudno. Bu'n gefn ac yn gysur i lawer yno. Daeth gweinidogaeth dor y ffôn a thrwy Zoom yn gymorth mawr iddynt yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ganddi lawer iawn o gyfeillion ac fe gadwai mewn cysylltiad cyson â nifer fawr ohonynt drwy'r ffôn. Roedd wedi trefnu i weinyddu'r cymun yn y cartref ar gyfer mis Ionawr, ond nid felly bu. Daeth diwedd un cyfnod a dechrau un arall yng nghwmni'r Crist a garai mor fawr. Bu farw yn dawel yn yr ysbyty Ionawr 11, 2023.

Bu'r angladd yng Nghapel Coffa 25 Ionawr. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, Y Parchg Gareth Edwards yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg Brian Wright a'r Parchg Trefor Lewis yn y Capel a'r Parchg Angharad Roberts a'r Parchg Helen Wyn Jones yn Amlosgfa Bae Colwyn.

Cydymdeimlwn ag Ioan, ei mab a Siân ei briod a chyda'r wyrion Rhian a Huw.

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (3)



Unwaith eto, Adroddiad Comisiwn a gododd Cyngor yr Undeb ym 1953, 'i chwilio i sefyllfa'r Weinidogaeth Heddiw' sy'n mynd a'n sylw. Fe'i cyhoeddwyd ym 1958.

Ymwneud â 'Derbyn a Pharatoi Myfyrwyr Diwinyddol' mae trydedd adran yr Adroddiad, a chyda cau drysau Coleg yr Annibynwyr Cymraeg yn 2022, a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am addysg a hyfforddiant i ofal yr Undeb, mae hwn yn fater o bwys eto heddiw.

Noda'r adroddiad, yn gwbl gywir, mai cyfrifoldeb yr eglwysi yw codi a magu gweinidogion, ond mae'n gofyn hefyd, 'A yw'r eglwysi yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifrif?' Erys y cwestiwn hwnnw o hyd.

### Galwad

Cyfeiria wedyn at 'alwad' gweinidog, gan gydnabod mai oddi wrth Dduw y daw honno. Sut, felly, y mae cymaint prinder o ddarpar weinidogion? 'Sylwer ar y ffaith arwyddocaol,' medd yr adroddiad, 'na cheir yn aml yn awyrgylch addoliadol ein heglwysi yr *hinsawdd* a ddylai bwyso'n ddylanwad dwyfol-hydreiddiol ar feddwl dyn ifanc ystyriol i'w gyfeirio at y weinidogaeth.'

Maddeuwn, am y tro, i'r sylw hwn gael ei wneud mewn termau gwrywaidd, oherwydd gwerthfawrogwn onestrwydd didostur yr hyn a ddywedir, ac mae'r hyn a fynegir, yn gyffredinol, yn dal yn wir, nid yn unig yn achos unrhyw un ifanc a allasai fod yn bresennol, ond hefyd rai hŷn. Geiriau yw'r rhain a ddylai ein dwysbigo, ond ein tuedd erbyn hyn fel aelodau eglwysig yw murmur dan ein gwynt nad oes a wnelom ni ddim byd â chodi a magu gweinidogion. Anwiredd yw hynny ac mae'n hen bryd i ni sylweddoli hynny.

### Cyfryngau dynol

Un od, medd yr adroddiad, yw'r alwad 'oddi uchod' i'r weinidogaeth. Mewn galwedigaethau eraill, mae 'apêl, swyn a ffafrau' y gwaith yn ennyn awydd mewn pobl i ymgeisio am y swyddi, ond cyndyn yn aml yw pobl i ymateb yn gadarnhaol i'r alwad nefol, a cheir enghreifftiau dirifedi o hynny yn y Beibl ac yn hanes yr eglwys. Ac er mai am alwad yr Hollalluog yr ydym yn sôn, dylid cofio ei bod yn dod yn aml trwy 'gyfryngau dynol a syml,' trwy ddylanwad eraill arnom, trwy sgwrs neu bregeth neu weddi. Ond a ydym yn chwilio am yr alwad, yn disgwyl ei chlywed, ac yn ymwybodol y gall ddod ar unrhyw adeg, ynteu a yw ein byddardod, lle bo llais Duw yn y cwestiwn, mor llwyr fel nad ydym erbyn hyn yn cyboli gwrando, rhag ofn iddo lefaru yn ein plith?

### Hyfforddiant

Sonnir wedyn am 'ein cyfryngau i hyfforddi gweinidogion.' Nid yw pob un yn 'academaidd,' meddir, ond mae disgwyl i bob un sydd am fod ynglŷn â gwaith gweinidogaeth feddu ar ryw fesur o 'ddysg a diwylliant academaidd.' Dylent fod â dealltwriaeth o 'elfennau'r bywyd cyfoes' hefyd, a gwybod rhywbeth am economeg, diwydiant, addysg a seicoleg. Dylai eu hyfforddiant gynnwys cyfod yn y maes gyda gweinidog profiadol, ac arweiniad yn yr elfennau ymarferol o'r gwaith o ddydd i ddydd.

### Prinder ymgeiswyr

Yr oedd yn y '50au, fel heddiw, brinder ymgeiswyr oedd am fynd i'r weinidogaeth, a cheisiodd y Comisiwn ddeall pam. Cyfeiria at effaith y rhyfeloedd, 'seciwlariaeth hollbresennol,' straen ariannol y weinidogaeth, Seisnigrwydd 'y mudiad ffwndamentalaidd,' ac apêl swyddi brasach sy'n talu'n well. A beth am y rhai sy'n gadael eu cyrsiau cyn iddynt eu cwblhau? Y prif reswm am hynny, 'yn ôl amryw o'r athrawon diwinyddol, [oedd] siom oherwydd marweidd-dra'r eglwysi – a *frustrations* heddiw.'

Nid oes, mae'n ymddangos, dim newydd dan yr haul. Mae'r heriau hyn yn parhau ac y mae mawr angen eu trafod yn ein plith wrth i ni, fel Annibynwyr, symud ymlaen a cheisio dyfalu pa fath o ddyfodol sydd i'n heglwysi a'u gweinidogaeth.

**Geraint Tudur, Bangor**

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 16 2023 RHIF 103

# Rhwydwaith Banciau Bwyd Sir y Fflint yn dal i gyflenwi ddeng mlynedd ers ei sefydlu



**Sefydlwyd Banc Bwyd Sir y Fflint yn yr Wyddgrug ym mis Mai 2012, pan ddaeth yn amlwg am y tro cyntaf fod angen y gwasanaeth yn yr ardal. Ar y pryd ni feddyliai'r elusen y buasai cymaint o alw am y gwasanaeth yn parhau ymhen degawd.**

Mae data gan y banc bwyd yn dangos y nifer cynyddol o bobl sydd angen cymorth ers ei gychwyn ym Mehefin 2012, pryd y darparwyd bwyd i 58 o bobl. Deng mlynedd yn ddiweddarach, yn ystod mis Mehefin 2022 yn unig, roedd oddeutu 885 o bobl yn y sir mewn cyfnod o argyfwng, wedi derbyn bwyd gan y banc bwyd.

Mae'r banc bwyd yn rhan o Ymddiriedolaeth Trussell, rhwydwaith o fanciau bwyd drwy'r Deyrnas Unedig sydd yn darparu bwyd a chefnogaeth mewn argyfwng.

Gall unrhyw un sydd yng nghanol tlodi bwyd dderbyn cymorth. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar sail system talebau atgyfeiriol. Mae'r data cyfredol yn dangos bod teuluoedd cyffredin yn medru cael eu hunain mewn argyfwng am nifer o resymau megis diswyddiadau, budd-daliadau yn cael eu talu'n hwyr, gwaeledd annisgwyl neu godiad diweddar mewn biliau am wasanaethau cyhoeddus. Gall hyn orfodi unigolion i ddewis rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd, talu'r rhent neu wresogi'r tŷ.

Er mwyn cynnig cymorth addas i unigolion, mae'r banc bwyd yn cydweithio â nifer o asiantaethau lleol, cofrestredig, sydd yn cyfeirio'r unigolion ac yn eu hasesu, ac yn nodi eu hanghenion cyn bod talebau bwyd yn cael eu cyflwyno iddynt. Mae cydweithio rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn golygu bod pobl sydd mewn angen yn cael eu cyfeirio i dderbyn talebau. Yna cymerir manylion am y teulu a chynigir arweiniad iddynt hefyd. Mae pob parsel o fwyd yn cynnwys cyflenwad bwyd maethlon am dridiau ynghyd â bwyd babi, pethau ymolchi a glendid personol. Hefyd, mae bwyd anifeiliaid ar gael os gwneir cais am hynny.

Un o'r pethau mwyaf anodd i'r gwasanaeth yw darparu bwyd a chefnogaeth i'r rhai sydd yn ddigartref. Yn aml nid oes ganddynt unrhyw gyfleusterau i goginio bwyd. Yn naturiol, mae rhai yn ei chael yn anodd i ymweld â'r banc bwyd, ond mae'r staff yn cynnig cefnogaeth ymarferol a charedig iddynt gan beidio â barnu neb, ac mae cyfrinachedd a phreifatrwydd yn cael eu parchu.

Mae'r gwasanaeth yn hollol ddibynnol ar roddion bwyd ac arian gan y cyhoedd, gyda llawer o fusnesau'n creu cynlluniau gwahanol i gefnogi'r elusen. Mae mannau casglu bwyd a rhoddion mewn nifer fawr o gapeli, eglwysi, ysgolion, mannau gwaith a hamdden. Mae'r archfarchnadoedd hefyd yn chwarae rhan lawn yn y gwasanaeth drwy ddarparu mannau i dderbyn rhoddion yn eu siopau. Cesglir y rhoddion gan fan y Trussell Trust ac yna fe'u cludir i'r warws yn yr Wyddgrug. Yno, maent yn cael eu gwirio, eu sortio ac yna eu hailddosbarthu i'r naw o ganolfannau banc bwyd yn y sir. Yn ddiweddar, mae banc bwyd Sir y Fflint wedi creu ap 'Bank the Food', sydd yn dangos pa fwydydd sydd yn brin ganddynt.



Mae'r banc bwyd hefyd yn croesawu rhoddion ariannol a gellir ychwanegu Rhodd Cymorth at hyn. Mae'r rhoddion hyn yn hanfodol i dalu am gostau megis trydan, cynnal a chadw adeilad a cherbydau'r elusen a chostau rhedeg yr elusen, a hefyd i brynu bwyd a nwyddau sydd yn brin. Ceir manylion ynglŷn â sut i wneud cyfraniad ariannol ar wefan yr elusen neu ar Facebook.

Yn olaf, mae'n bwvsig iawn nodi bod dros 60 o weithwyr gwirfoddol ymroddedig yn cydweithio ag Arweinydd y Fenter, Sue Leake, a thîm bach o reolwyr i redeg y banc bwyd, ac mae dyled y banc bwyd i bawb yn y gymuned sydd yn cyfrannu at yr elusen.

Cred y Trussell Trust na ddylai neb fod yn llwgu er gwaethaf yr anawsterau mae cymaint o deuluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter ag:
Y Brif Swyddfa, Yr Hen Lyfrgell,
Raikes Lane, Yr Wyddgrug, CH7 6NW
Dydd Mawrth a Dydd Gwener
08.00am–14.00pm.
Ffôn: 01352 757235
Ebost: info@flintshire.foodbank.org.uk
Gwefan: www.flintshire.foodbank.org.uk
Facebook ac Instagram:
@flintshirefoodbank

Ewch ar wefan y Trussell Trust i weld ble mae eich banc bwyd agosaf a beth yw ei anghenion: https://www.trusselltrust.org

*Beth Jones*
*gwirfoddolwr gyda'r Banc Bwyd*

# Urddas, llais a grym – Sul Tlodi, 19 Chwefror

Church Action on Poverty

Dyma ddetholiad bychan wedi ei drosi i'r Gymraeg o'r adnoddau a'r syniadau sydd ar gael i nodi Sul Tlodi gan fudiad yr Eglwys yn Gweithredu yn erbyn Tlodi (Church Action on Poverty, CAP). Mae'n gyfle i fyfyrio a gweddïo am newid, a chodi arian i gefnogi mudiad sy'n gweithio i fynnu urddas, llais a grym i rai sydd yng ngafael tlodi.

### Ffafriaeth

*Seiliwyd ar Iago 2:1–10 (11–13), 14–17*

A fuest ti erioed yr olaf i'w ddewis i'r tîm
a chael dy frifo tu mewn am fod pawb wedi eu dewis
o dy flaen di?
A fuost ti erioed mewn dosbarth yn yr ysgol lle mai rhywun arall oedd ffefryn yr athro a thithau'n holi pam?
Gerddaist ti erioed i mewn i ystafell yn dy ddillad gorau,
dim ond i weld bod pawb arall mewn dillad hamdden ac yn syllu arnat ti?
A deimlaist ti erioed yn annifyr yn rhywle am mai
academyddion neu bobl efo arian,
neu bobl chwaraeon neu'r 'cyfryngis' oedd yno
a thithau yr unig un efo swydd 'gyffredin'?
Wnest ti erioed geisio ymuno efo clwb a chanfod bod
y 'cylch mewnol' yn adnabod ei gilydd mor dda,
ac yn gadael pawb arall yn oer y tu allan?
Feddyliaist ti erioed fod yna anghyfartaledd llwyr
rhwng y cyfoethog a'r tlawd, gyda'r cyfoethog yn cael
y ffafrau i gyd a'r tlawd yn cael eu gadael i edrych ar ôl eu hunain?
Ymddygiad gwarthus, yntê?

Ond taset ti'n cerdded i mewn i'r capel ar fore Sul
a gweld ffrind cefnog i lawr yn y blaen a pherson digartref
yn cuddio yn y sedd gefn, at bwy fyddet ti'n mynd i eistedd?
Ac os byddet ti am wneud argraff,
pa un fyddet ti'n ei wahodd adref am bryd o fwyd?
A sut fyddet ti'n dewis pe byddai'r ddau'n gofyn am gael
aros yn dy 'stafell sbâr' di y noson honno?
Bydd yn onest!

Does gan Dduw ddim ffefrynnau,
ond yn sicr mae ganddo ogwydd
tuag at y tlawd, ar sail y ffaith y dylai'r cyfoethog
allu edrych ar ei ôl ei hun,
ond nad oes gan y tlawd yn aml y modd i wneud hynny.

Gwneud ichi feddwl, 'dydy? Neu fe ddylai.
© *Marjorie Dobson*

### Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod

Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod.
Ro'n i wedi darllen cylchgronau ac erthyglau
papur newydd ac apêl gan elusennau,
wedi gweld lluniau,
gwylio rhaglenni dogfen ar y teledu.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod am dlodi.
Ond fe gadwyd y caledi, yr angen, a'r diffyg gobaith
yn saff tu ôl i'r sgrin,
neu wedi eu clymu i eiriau llonydd y papur.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod,
ond doeddwn i ddim yn gwybod.
Yna, fe wnes i wrando ar straeon y rhai
oedd yn dod i'r banc bwyd,
a dod wyneb yn wyneb
â salwch, anffawd, anallu biwrocrataidd a diffyg goddefgarwch,
gohirio budd-daliadau, tâl annigonol, dewisiadau gwael,
trais yn y cartref, digartrefedd,
dim canllawiau i'm cadw rhag y boen a'r anobaith.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod,
ond doeddwn i ddim yn gwybod.
Fe es i 'nôl adref i 'nhŷ cynnes, cysurus,
fy incwm addas a'm cynilion,
fy mywyd iach, di-ddyled.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod
ond wyddwn i ddim go iawn.

O Dduw, rho i mi, os gweli'n dda,
y gras i gyfaddef na wn i ddim sut beth yw bod mewn tlodi,
y dewrder i wneud fy llais yn glywadwy ar ran y tlawd,
yr ewyllys i wneud yr hyn sydd o fewn fy ngallu i helpu.
Amen.
(*Gwreiddiol: Brian Ford*)

### Gweddi Sul Tlodi

Drindod Sanctaidd, rwyt ti'n rhoi urddas i bawb,
**Atgoffa ni ein bod ni'n werthfawr yn dy olwg.**
Dduw cariadus, rwyt ti'n codi'r rhai sy'n isel,
**Atgoffa ni o'r rheiny na welir eu gwerth.**
Iesu Grist, rwyt ti'n dod â newyddion da i'r tlawd,
**Atgoffa ni i ymestyn allan am gyfiawnder i bawb.**
Ysbryd Glân, rwyt ti'n rhyddhau'r rhai sy'n gaeth,
yn ein herio a'n hysbrydoli,
**Nertha ni i sefydlu cymdeithas y gall pawb berthyn iddi.**
*Urzula Glieneck*

Gellir dod o hyd i adnoddau a syniadau ar gyfer nodi Sul Tlodi (Church Action on Poverty) ar 19 Chwefror, neu unrhyw bryd y bo'n addas, ar wefan y mudiad CAP: https://www.church-poverty.org.uk/.

## Blwyddyn ers dechrau Rhyfel Wcráin

Mae Cymorth Cristnogol yn gwahodd eglwysi i ymuno mewn gweddi ac undeb gyda phobl Wcráin ddydd Sul, 26 Chwefror. Fe drefnir cyfres o wylnosau ganddynt i nodi blwyddyn ers dechrau'r rhyfel ar 24 Chwefror. Bydd gweddi ar gael yn y rhifyn nesaf o *Cenn@d* er mwyn ichi ystyried ei defnyddio fel rhan o'ch gwasanaeth ar y Sul neu mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnir yn eich cymuned chi.

(Gol.)

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 18 Torri corneli

### Darllen: Genesis 16:1–6

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 10)

Rwyf eisoes wedi cyfeirio yn y gyfres hon at yr angenrheidrwydd o gael dealltwriaeth Feiblaidd gyflawn o'r hyn ydym wrth natur. Un o'r pethau sy'n gwneud deall y digwyddiad yma yn anodd, fel digwyddiadau eraill ym mywyd Abraham, yw syniad afreal o'r hyn ydym. Mae credu y medrwn fyw'n ddibechod yn mynd i beri siom wrth ystyried pwy ydym ni, wrth ymwneud â phobl yr un fath â ni, ac o fewn yr Eglwys.

Dengys diwedd pennod 15 yn glir i Abraham y byddai Duw yn barod i gael ei dorri os byddai'n mynd yn ôl ar ei air, ei gyfamod ag ef. Byddech yn disgwyl, yn wyneb y fath gadarnhad, mai ymateb 'naturiol' Abraham fyddai credu Duw, byw yn ffyddlon, a sicrhau bod ei addewid iddo'n cael y lle blaenaf yn ei fwriadau a'i benderfyniadau. Mae pennod 16, ar sawl lefel, yn gosod Abraham fel yr un oedd bennaf ar fai am y modd y mae'r sefyllfa'n datblygu. Cofiwch, does neb yn ddieuog ymhlith y tri chymeriad. Sarah yw'r un sy'n cwyno ac yn beio Duw ar y dechrau, ac yn dilyn hynny mae Hagar yn byw ei bywyd i ddibrisio Sarah. Cawn ganolbwyntio ar Hagar yr wythnos nesaf.

Mae Sarah bellach tua 75 oed ac, fel Hanna yn ddiweddarach yn 1 Samuel 1:7, mae bod yn ddi-blant yn ofid calon iddi. Aethai deng mlynedd heibio ers iddi ddod i Ganaan. Roedd yn gwybod bod yr Arglwydd wedi rhoi addewid i'w gŵr y byddai'n dad i genedl, ond nid oedd hi wedi cael addewid mai trwyddi hi y byddai hyn yn cael ei sylweddoli. Daw'r addewid yn glir iddi ym mhennod 17. Ymhellach, ni welodd hi yr Arglwydd yn mynd drwy'r tân wrth dorri cyfamod ag Abraham. Er bod y digwyddiad hwn yn wrthun i ni, eto, o fewn y diwylliant, roedd Hagar yn 'eiddo' i Sarah yn gyfan gwbl, a hithau'n rhydd i wneud fel y mynnai â hi.

Ond pwynt yr awdur yma yw nad safon y diwylliant o'u hamgylch oedd safon Abraham a Sarah. Mae Duw wedi gosod allan ei fwriad gyda golwg ar berthynas gŵr a gwraig (2:24), ond, fel yn achos Abraham a Sarah, felly droeon yn y Beibl, cawn bobl Dduw yn cefnu ar y patrwm hwn. Mewn rhyw ystyr, o edrych ar y sefyllfa yr oedd Sarah ynddi, mae yna gyfuniad o dda a drwg amdani. Mae'n sylweddoli'r angen am blentyn, dyhead Abraham am blentyn, ac efallai, oherwydd ei chariad at Abraham, mae'n barod i aberthu perthynas oedd i fod yn ecsgliwsif, er mwyn sicrhau plentyn. Mae un esboniwr yn dweud iddi, wrth weithredu fel hyn, 'for the sake of love did violence to love'. Wedi dweud hynny, mae'r Beibl yn gwbl glir am y ffordd mae'n beio Duw, ac mai bwriad y weithred oedd ceisio gwneud yr hyn nad oedd Duw wedi ei wneud.

Fel y nodais, yr un sy'n gwbl ddiesgus yn y sefyllfa yw Abraham. Sylwch ar y cymal ar ddiwedd adnod 2: 'Gwrandawodd Abram ar Sarai'. Mae rhyw atsain yma o Genesis 3:6, lle dywedir am Adda: 'a bwytaodd yntau'. Dyma'r dyn oedd wedi clywed Duw yn siarad, wedi derbyn yr addewid, ac wedi gweld Duw yn gwneud cyfamod. Dyma hefyd y dyn, fel Sarah, oedd yn gwybod beth oedd canlyniad crwydro'r tu allan i ewyllys Duw pan oeddent yn yr Aifft. Yno, mae Abraham yn gosod y berthynas ecsgliwsif yr oedd Duw yn ei bwriadu mewn perygl. Bellach, a hynny yn hanes y ferch yma o'r Aifft, mae yna ddiffyg cof, a dim arwydd o ddysgu gwersi. Mae'n ystyried y ferch hon fel dim mwy nag eiddo, ac mae'n diddorol nad yw ef na Sarah yn cyfeirio at Hagar wrth ei henw. Yn anorfod, mae yna ganlyniadau i hyn, ac mae hanes y tensiynau rhwng plant Abraham i'w gweld ar weddill tudalennau'r Hen Destament. Yn hytrach na rhoi ei fraich o amgylch Sarah i'w chysuro, i rannu ei hyder yn y Duw nad oedd yn mynd yn ôl ar ei air, i'w sicrhau o'i gariad tuag ati, mae'n gwrando ar ei wraig yn y cynllun amhriodol yma. I bentyrru gofid, mae'n ildio i ddiwylliant y wlad yn ddiweddarach drwy ddweud wrth Sarah i ddelio â Hagar yn hytrach na delio â hi ei hun (16:6).

Er iddo geisio osgoi ailadrodd, mae geiriau Paul yn dal i siarad mewn sefyllfa o'r fath, fel yn ein sefyllfaoedd ein hunain: 'Felly, bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wylio rhag iddo syrthio' (1 Corinthiaid 10:12). Siarad am bobl ffydd y mae Genesis 16, pobl sydd, o dechrau amau gair ac addewid Duw, o ddechrau amau Duw ei hun yn aml, yn esgor ar ganlyniadau hynny. Mae unrhyw ymlwybro tuag at dorri corneli fel hyn yn dod â'i ganlyniadau, gyda'r rhai 'sy'n hau y gwynt yn medi corwynt' (Hosea 8:7).

Mae maddeuant gyda Duw, mae'n maddau'n rhad ein holl gamweddau; eto, mae yna ganlyniadau i'n pechod. Yn yr achos yma, nid yn unig mae'r ddau yn pechu yn erbyn Duw, yn erbyn Hagar, ac yn pechu yn erbyn ei gilydd, ond maent mewn rhyw ffordd yn pechu yn eu herbyn eu hunain. Fel pobl sydd o'r un anian, rydym ninnau'n tystio: 'oherwydd mi wn nad oes dim da yn cartrefu ynof fi, hynny yw, yn fy nghnawd. Y mae'r ewyllys i wneud daioni gennyf; y peth nad yw gennyf yw'r gweithredu … Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth? Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd!' (Rhufeiniaid 7:18, 24–5)

1. I ba raddau, yn eich tyb chi, y mae'r siom ynom ein hunain ac mewn pobl eraill i'w holrhain i ddisgwyliadau afreal o bwy ydym?
2. Oes yna sefyllfaoedd lle rydych chi wedi ceisio gwneud yr hyn y tybiwch nad yw Duw wedi ei wneud? Un enghraifft, efallai, fyddai gweddïo y byddai amgylchiadau eich teulu yn gyffyrddus a'ch bod yn mynd ati mewn ffordd anghyfiawn i sicrhau hynny.
3. Mae'r cefndir yn y Dwyrain Canol yn ystod oes Abraham yn dangos nad oedd dim o'i le ar yr hyn a wnaeth y ddau yn achos Hagar. I ba raddau y byddwn ni'n cymryd safon y byd o'n hamgylch fel pren mesur, yn hytrach na byw fel pobl wahanol, pobl sydd ddim yn cydymffurfio â'r byd, ond yn caniatáu i Dduw drawsffurfio ein meddwl er mwyn i ni 'allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhufeiniaid 12:2)?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 19 Chwefror, am 7.30yh**

Bydd 22 Chwefror yn ddydd Mercher y Lludw. A dyna ddechrau tymor y Grawys – y cyfnod pan fydd yr Eglwys yn paratoi ar gyfer y Pasg. Bydd Ryland yn ymweld ag Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw ac yn dysgu am eu digwyddiadau nhw i baratoi tuag at y Grawys.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 19 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**

Jenny Ogwen yn cyflwyno emynau gan Scaramella a Chôr Crymych

***Sul, 19 Chwefror, am 12:00yp***

Oedfa dan arweiniad Rob Nicholls, Llundain

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Sbring Clîn

DYDD MAWRTH, 21 CHWEFROR. Diwrnod pancos ... neu grempog ... neu ffroes! Cyfle, yn ôl traddodiad, i glirio'r bwyd bras o'r tŷ yn barod ar gyfer tymor y Grawys, sy'n cychwyn y diwrnod canlynol ar ddydd Mercher Lludw. Yn ôl calendr yr Eglwys Gristnogol, y Grawys, fel y gwyddoch yn ddigon da, yw'r cyfnod o 40 niwrnod cyn y Pasg. Dyma gyfnod i ni oedi a meddwl. Cyfle i ystyried beth yw ein blaenoriaethau, a chyfle i edrych ar ein bywyd ysbrydol wrth i ni baratoi ar gyfer y Pasg.





### Gwreiddiau

Yn ôl yng nghyfnod yr Eglwys Fore, roedd deddfau caeth i'w dilyn adeg y Grawys ac, yn eu plith, y syniad bod angen i bob Cristion feddwl cael ei lanhau'n ysbrydol. Awgrymwyd y byddai ymatal rhag bwyta cig ac unrhyw gynnyrch anifeiliaid yn ddisgyblaeth ddefnyddiol i'w harfer ar yr adeg hon. Y cyfan roedd ei angen ar y corff oedd pryd bwyd syml iawn gyda'r nos. Heddiw, mae rhai Cristnogion yn dal i feddwl ei bod yn beth da i ymatal rhag gwneud neu fwyta rhyw bethau neilltuol yn ystod tymor y Grawys a hynny er mwyn cofio am aberth Iesu ac am y temtasiynau y bu'n rhaid iddo eu gwrthsefyll yn yr anialwch. Dewis rhai yw rhoi'r gorau i fwyta siocled neu bethau melys tra bo eraill yn rhoi'r gorau i wylio'r teledu neu chwarae gemau cyfrifiadurol. Fe fydd eraill yn ceisio rhoi mwy o amser yn ystod y dydd i feddwl am Dduw a gweddïo.

### Glanhau

Dyma'r adeg hefyd y bydd nifer yn meddwl am lanhau eu cartrefi – y glanhau gwanwynol (spring cleaning). Pam yn y gwanwyn? Wel, oherwydd bod y dydd a'r oriau o olau yn ymestyn. Ond hefyd, am fod golau yn datguddio rhyw bethau e.e. dwst (!), sydd wedi bod mas o'r golwg dros fisoedd tywyll y gaeaf. Fe allai tymor y Grawys hwn fod yn amser da i ni i gyd geisio trio 'glanhau' ein bywyd hefyd. Efallai bod rhai agweddau y gallen ni eu brwsio o'r ffordd, arferion sydd angen eu golchi, neu ymddygiad y gallen ni ei newid.

OND CYN HYNNY, mwynhewch eich pancos ... crempog ... ffroes!

**Beti-Wyn James**




## PROSIECT DENMAN 2023

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) ar y thema:

### Ein Hysgol Sul: 'Dweud am Iesu.'

Yr ydym ni bellach wedi symud at ailgydio yn ein cyrddau a'n hysgolion Sul ni, ac er i ni fod ar wahân am gyfnod, mae neges yr Iesu yn aros yr un. Sut fyddech chi'n hoffi sôn wrth bobl am eich ysgol Sul chi ac am neges Iesu Grist?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn dydd Llun, 5 Mehefin 2023.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

# Golygyddol

## Credaf mewn ...

Dywediad enwog sy'n cael ei dadogi – yn anghywir medi rhai ffynonellau* – i G. K. Chesterton yw hwn:
'When men choose not to believe in God, they do not thereafter believe in nothing. They then become capable of believing in anything.'

Wrth edrych ar gyflwr Cymry yn yr oes ôl-Gristnogol hon, gwelwn fod y gosodiad hwn yn wir. Wrth i'r boblogaeth gefnu ar Dduw a'r safbwyntiau Cristnogol sydd wedi bod yn rhan o gynhysgaeth ein dealltwriaeth o fwyd ac yn sail i'n cymdeithas ers canrifoedd gwelwn fod tueddiadau gwahanol iawn yn ymddangos. Nid rhai newydd o reidrwydd ond hen rai fu yn ein tir cyn, erbyn hyn, wisgo cochl newydd. Mae'r safbwyntiau hyn yn gallu hydreiddio i mewn i'n heglwysi gan lastwreiddio ein ffydd a'r datguddiad clir y mae Duw wedi rhoi yn Iesu.


### Ofergoelion

Cyfeirio yr ydwyf yn benodol yn yr erthygl hon at ofergoelion ac arferion drwg. Gweithiodd Cristnogion yn ddygn tros y canrifoedd i ddileu dylanwad ofergoelion ar genedl y Cymry. Hyd yn oed ar ddechrau'r 19eg ganrif roedd ei ddylanwad yn drwm ar ein pobl. Rhaid cofio bod ofergoeliaeth yn rhywbeth sy'n caethiwo a dychryn pobl gan ddod a thwyll i'w bywyd yn rhith gwirionedd. Darllenwch *Detholion o Hunangofiant Gweirydd Ap Rhys* er mwyn gweld y drwg yr oedd y 'tylwyth teg' yn ei wneud. Gellir troi dalennau cylchgronau Cristnogol y 19eg ganrif a gweld erthyglau am swynyddiaeth (magic), sêr ddewiniaid, dewines, dewiniaeth, consuriwyr, ysbrydion, tylwyth teg, gwŷr hysbys ayyb. Gwelai'r arweinyddion rhain fel pethau gwrth-Gristnogol na ddylai credinwyr ymhél â hwy. Ceir cyfeiriadu clir yn *Rheolau a Dibenion ... y Methodistiaid yng Nghymru* (1801) yn gwahardd arferion o'r fath.

### Bydysawd yn siarad

Wrth siarad gyda phobl heddiw sydd ddim yn credu yn Iesu Grist, a gwrando ar Gristnogion sy'n gweithio mewn amrywiol gyd-destunau, y mae'n amlwg bod ofergoeliaeth yn amlwg.

Y mae llawer erbyn hyn yn dweud pethau fel, 'the universe is trying to tell me something.' 'Dwedwch wrth y bydysawd sut ydych chi yn teimlo!' 'Mi geith o ei Karma mewn da bryd.' Cyffyrddant y darn pren agosaf gan ddweud 'touch wood' ac fe gyfarchant biod rhag ofn y bydd eu hanwybyddu yn dod a lwc ddrwg iddynt. Cred rhai mewn grym crisialu ac eraill mewn dylanwadau 'lucky charms'. Yn ogystal â hyn mae nifer o bobl yn troi at ddarllenwyr cardiau *tarrot*, yn darllen am ddylanwad arwyddion y sidydd. Yn waeth byth, mae pobl yn heidio i gyfarfodydd gyda *mediums* sy'n cysylltu gyda'r meirwon, ac ar y cyfryngau cymdeithasol y mae llawer o wrachod yn hysbysebu eu gwasanaeth. Efallai y gallwch chi feddwl am enghreifftiau eraill o ofergoeliaeth.



### Syched

Yr hyn a ddaw i'r amlwg yw bod syched yng nghalonnau pobl am yr ysbrydol a bod nifer yn ceisio diwallu'r syched hwn trwy ddulliau amgen. Wrth gwrs, credwn fod rhyddid i bawb gredu fel y mynnent ond fel Cristnogion rydym yn argyhoeddedig mai dim ond Duw trwy'r Iesu sydd yn gallu torri'r syched hwn. Nid yw ofergoeliaeth yn iachus i gymdeithas nac i unigolion.


### Gair i gall

Rhaid rhybuddio ein gilydd fel Cristnogion nad yw arferion ofergoelus yn dderbyniol i ddilynwyr Iesu. Ni ddylid credu mai trwy hap a damwain y mae pethau yn digwydd nac ymweld â gwrachod, *mediums*, dewiniaid na darllenwyr cardiau. Credwn fod Duw yn sofran ac yn goruwchlywodraethu dros y cread a thros ein bywydau a'n bod trwy ffydd yn ddiogel yn ei law. Fel y canodd Tecwyn Ifan:

> Dwi'm yn credu'r hen gredoau,
> Fod a wnelo'r sêr a'r duwiau
> A'th dynged ti a minnau yn y byd.
> Credaf mewn rhagluniaeth
> Nid ofergoelion.

**Alun Tudur**

* Dywed rhai mai Émile Leon Cammaerts ddywedodd y geiriau hyn gyntaf.




## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg drwy e-bostio Mary Thomas: rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script] ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2. ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James, Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Capel Newydd, Llandeilo

'Pan fyddo achos Iesu yn eiddil a diglod,' medd yr emyn, ac felly y bu yn gyffredinol ar Eglwys Crist yng nghyfnod y Covid. Ond fel yn hanes nifer o eglwysi eraill, cafwyd rhyw fath o normalrwydd yn y Capel Newydd, Llandeilo wrth drefnu dathliadau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Fore Sul cyn y Nadolig, cynhaliwyd oedfa yng ngofal plant ac ieuenctid yr eglwys, ac ar fore'r Nadolig cymerwyd at rannau arweiniol y gwasanaeth ac eitemau addas i'r dathlu gan y bobl ifanc. Dilynwyd hyn gan y Cymun dan arweiniad Mr Peter Harries, a braf oedd gweld cynulleidfaoedd niferus wedi dod at ei gilydd i gydaddoli.

Dychwelodd y gynulleidfa adre mewn llawenydd gyda bendith newydd o ganlyniad i'r Dathlu.

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
  a deued pawb ynghyd
i'w dderbyn a'i gydnabod ef
  yn Geidwad i'r holl fyd.

***Parch Edward Griffiths***
*Ionawr 2023*






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*